Bwrdd y Coleg, 24 Mehefin 2026 (10:30 – 3:00), Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd a Teams

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd:	Dr Aled Eirug (Cadeirydd) Ann Beynon Nia Elias (Teams) John Hayes Yusuf Ibrahim Meri Huws Yr Athro Anwen Jones (Teams) Angharad Roberts (Teams) Yr Athro Enlli Thomas (Teams)
Sylwedyddion:	Nia Edwards-Behi (Cynllun Llywio) Alan Jones (Llywodraeth Cymru) Dr Caroline Turner (ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Materion Allanol) Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ac Ysgrifennydd) Rebecca Williams (Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol) (Teams) Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) Mari Fflur (Uwch Reolwr Polisi) (Teams) Ffion Hughes (Uwch Reolwr Addysg Uwch) (Teams) Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol) (Teams) Dr Lowri Morgans (Uwch Reolwr Addysg Bellach) (Teams)

Cofnodion Cyfarfod 24 Mehefin 2026

1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
1.1	Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.		
1.2	Croesawyd Yusuf Ibrahim i'w gyfarfod cyntaf.		
1.3	Croesawyd Dr Caroline Turner a fyddai'n cyflwyno adroddiad cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar ran Rhian Huws Williams a oedd wedi ymddiheuro na allai fod yn bresennol.		
1.4	Croesawyd Nia Edwards-Behi a oedd yn bresennol fel sylwedydd o'r Cynllun Llywio sy'n rhoi profiad ymarferol o lywodraethiant cyfrwng Cymraeg i ddarpar arweinwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.		
1.5	Croesawyd Rebecca Williams i'w chyfarfod cyntaf yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol ac estynnwyd llongyfarchiadau iddi fel olynydd Dr Dafydd Trystan.		

2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
2.1	Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir iddynt nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		

3. Eitem 3 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
3.1	**Cofnodion (Eitem 3i)** Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 6 Mai 2026. Adroddodd yr Ysgrifennydd: • mai dyma oedd cyfarfod olaf Wyn Mears ar ôl dau dymor fel aelod profiadol a chefnogol ar y pwyllgor; • ar y cynllun i benodi Cadeirydd newydd ar sail di-dâl yn dilyn gohebiaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn Elusennau;		

	Bwriedir cynnal cyfweliadau ddiwedd Gorffennaf; • ar y cynllun i benodi aelodau newydd i'r Bwrdd cyn gynted â phosib gan fod yr aelodaeth yn denau. Derbyniwyd yr adroddiad.		
3.2	**Adroddiad holiadur gwerthuso (Eitem 3ii)** Cyflwynwyd adroddiad holiadur gwerthuso'r Bwrdd ar ran cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant gan Dr Caroline Turner. Adroddwyd: • bod y broses yn fuddiol er mwyn casglu sgiliau a barn ar berfformiad y Bwrdd; • ar fformat yr holiadur a'r angen i ymhelaethu ar yr ymateb 'ddim yn gwybod'; • bod y system o gyflwyno'r holiadur yn ddi-enw yn achosi anhawster wrth drafod yr adborth yn ddiweddarach. Yn ystod y drafodaeth cytunwyd gyda'r sylwadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer y dyfodol. Derbyniwyd yr adroddiad.	Addasu'r holiadur i ofyn am esboniad pan fydd atebion 'ddim yn gwybod', a dosbarthu'r holiadur yn agored (yn cynnwys enwau'r aelodau) yn hytrach na holiadur di-enw.	2027

3.3	**Adroddiad blynyddol (Eitem 3iii)** Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar ran cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant gan Dr Caroline Turner. Adroddwyd: • bod yr adroddiad yn crynhoi gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26; • bod yr adolygiad llywodraethiant yn amserol; • ar drafodaethau talu'r Cadeirydd; • ar y rhaglen arferol o benodi aelodau. Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol.		
	Ar y pwynt hwn gadawodd Dr Caroline Turner y cyfarfod.		

4. Eitem 4 – Cofnodion 25 Mawrth 2026

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
4.1	Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026.		

5. Eitem 5 - Materion yn codi

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
5.1	Eitem 4.3 – Adroddiad adolygiad llywodraethiant dan Eitem 16. Adroddwyd nad oedd copi drafft o'r adroddiad llywodraethiant wedi cyrraedd tan yn hwyr y diwrnod cynt. Yn dilyn ymgorffori rhai cywiriadau a diwygiadau rhennir yr adroddiad gyda'r aelodau fory. Trafodwyd amserlen trafod argymhellion yr adolygiad llywodraethiant yng nghyd-destun y Cynllun Strategol a'r Cadeirydd newydd. Cytunwyd y dylid parhau i recriwtio aelodau'r Bwrdd yn ôl yr amserlen gyfredol. Cytunwyd hefyd y dylid trafod argymhellion yr adolygiad yn fuan er mwyn alinio gyda'r Cynllun Strategol.		
5.2	Eitemau 7.5 a 7.6 – Cynllun Strategol dan Eitem 8.		
5.3	Eitem 9.5 – Hyfforddiant risg ac archwaeth risg. Adroddodd Cadeirydd dros dro y Pwyllgor	Hyfforddiant archwaeth risg a rheoli risg i holl aelodau'r Bwrdd	Tymor yr Hydref 2026

	Archwilio a Risg bod TIAA, archwilwyr mewnol y Coleg, wedi pwysleisio'r angen i'r Bwrdd berchnogi archwaeth risg. Bydd hyfforddiant yn nhymor yr hydref ar gyfer pob aelod Bwrdd cyn diwygio'r Gofrestr Risg yn sgil y Cynllun Strategol newydd.		

6. Eitem 6 - Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
6.1	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar a nodwyd y diweddariadau yn yr adroddiad.		
6.2	**Noson Wobrau – 17 Mehefin 2026** Adroddwyd ar y Noson Wobrau a chyflwyno gwobr cyfraniad arbennig i Dr Simon Brooks.		
6.3	**Cyd-destun** Nodwyd yr hinsawdd allanol trawsnewidiol yn dilyn canlyniad Etholiad Senedd Cymru a ffurfio'r llywodraeth newydd. Yn y cyd-destun hwn bydd y Coleg yn datblygu a lansio Cynllun Strategol newydd, penodi Cadeirydd ac aelodau newydd i'r Bwrdd, ac yn gweithredu argymhellion yr		

	adolygiad llywodraethiant, yn ogystal â chwarae rhan llawn yn nisgwyliadau Llywodraeth newydd Cymru.		
6.4	**Llywodraeth Cymru** Adroddwyd ar gyfarfod sydd yn y broses o gael ei drefnu cyn diwedd Gorffennaf gyda'r Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol. Adroddwyd hefyd ar gyfarfodydd gyda Phennaeth dros dro Is-Adran y Gymraeg. Mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio pwysigrwydd eglurder ar gyfrifoldebau ystod o gyrff er mwyn cydweithio effeithiol ac osgoi dyblygu.		
6.5	**Medr** Adroddwyd a thrafodwyd yr angen i sicrhau eglurder llawn ar gyfrifoldebau Medr a'r Coleg a'r gyd-berthynas rhwng y cyfrifoldebau hynny. Cynhelir gweithdy maes o law yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Medr a'r Coleg. Adroddwyd bod y gwaith o baratoi Cynllun Cenedlaethol yn parhau a bydd y Coleg yn		

	cyflwyno cyngor ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.		
	Ar y pwnt hwn ymunodd yr Athro Anwen Jones â'r cyfarfod.		
6.6	Nododd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, y bydd ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn nhymor yr hydref a fydd yn berthnasol i Gynllun Cenedlaethol Medr a Chynllun Strategol y Coleg.		
6.7	**Addysg Bellach a Phrentisiaethau** Adroddwyd ar drafodaethau yn Fforwm Penaethiaid ColegauCymru. Adroddwyd hefyd ar broses Medr o ddarparu cytundebau newydd ar gyfer prentisiaethau yn yr hydref gyda'r Coleg yn cynghori ar yr angen i brif ffrydio'r Gymraeg.		
6.8	**Cymwysterau Cymru** Adroddwyd ar yr adolygiad cymwysterau yn Lloegr ac effaith hynny ar gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu cyngor lefel uchel i'r Llywodraeth ddechrau'r haf.		

6.9	**Adran Addysg Llywodraeth Iwerddon** Adroddwyd ar gyfarfod rhwng y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd gyda chynrychiolwyr o Adran Addysg Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon i rannu gwybodaeth am ddatblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg dros yr ugain mlynedd ddiwethaf a rôl y Coleg.		
6.10	Mewn ymateb i gwestiwn adroddwyd bod y Cynllun Strategol yn rhoi pwyslais ar ddefnydd helaethach o ymchwil a data er mwyn gosod cyfeiriad i waith y Coleg ac i fod yn sail i'r gwaith cynllunio polisi a mesur effaith.		

7. Eitem 7 – Materion y Cadeirydd

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
7.1	Adroddodd y Cadeirydd y bu'n bleser cyflwyno gwobr cyfraniad arbennig i Dr Simon Brooks yn y Noson Wobrau ar 17 Mehefin. Ar achlysur ei gyfarfod arferol olaf diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth ar hyd ei dymor o wasanaeth.		

7.2	Adroddodd y bydd yn cynnal sgyrsiau gyda'r aelodau yn ystod tymor yr haf.		

8. Eitem 8 – Cynllun Strategol 2026-30

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
8.1	Cyflwynwyd Cynllun Strategol drafft gan y Prif Weithredwr.		
8.2	Adroddwyd y bu cyfarfod rhwng y Cadeirydd a chadeiryddion yr is-bwyllgorau i drafod y drafft.		
8.3	Adroddodd y bydd darn sylweddol o waith i alinio gweithgareddau a phrosesau'r Coleg, gan gynnwys argymhellion yr adolygiad llywodraethiant, gyda'r Cynllun Strategol newydd.		
8.4	Adroddodd y bydd cyfres o fesuryddion a dangosyddion ystyrlon yn cael eu hadnabod er mwyn gwerthuso cynnydd a llwyddiant gwaith y Coleg yn barhaus trwy'r cynllun gweithredu.		
8.5	Rhoddwyd crynodeb o'r Cynllun gan gynnwys gweledigaeth, yr amcanion strategol, y meysydd blaenoriaeth, dulliau gweithredu a gwerthoedd gan y Cyfarwyddwr Materion Allanol.		

8.6	Yn ystod y drafodaeth: • cyfeiriwyd at flaengaredd strategol y Cynllun; • nodwyd y bydd CEFR yn linyn i fesur cynnydd a dilyniant; • ategwyd y bydd modd teilwra'r meysydd blaenoriaeth wrth i anghenion ddatblygu ac amrywio; • nodwyd bwysigrwydd gwerth i'r dysgwr; • cyfeiriwyd at y ffaith bod y Coleg wrth galon hunaniaeth a diwylliant Cymraeg.		
8.7	Croesawodd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, y Cynllun Strategol gan gyfeirio at bwerau rheoleiddio Medr, anghenion gweithluoedd, ac arferion ieithyddol gydol oes ac yn y gymuned.		
8.8	Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y Cynllun Strategol drafft gyda mân ddiwygiadau er mwyn dechrau ymgynghoriad yn ystod tymor yr haf. Cynhelir cyfarfod o'r Bwrdd ar 1 Hydref 2026 (*cadarnhawyd y dyddiad yn dilyn y cyfarfod) i gadarnhau'r Cynllun Strategol yn derfynol. Bydd y		

	Cynllun Strategol yn cael ei lansio yn y Senedd ar 17 Tachwedd.		

9. Eitem 9 – Papur cyllido darpariaeth

9.1	Cyflwynwyd papur cyllido darpariaeth (Eitem 9i) gan yr Uwch Reolwr Polisi.		
9.2	Amlinellwyd rhai syniadau i'w cyflwyno fel cyngor dan y dynodiad i Medr o ran cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.		
9.3	Nodwyd adroddiad Alma Economics (Eitem 9ii) ac Ymateb y Coleg i argymhellion Alma Economics (Eitem 9iii).		
9.4	Yn dilyn trafodaeth a oedd yn cytuno gyda'r egwyddorion cymeradwywyd y cyngor yn y papur.		

10. Eitem 10 – Pwyllgor Archwilio a Risg

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
10.1	**Cofnodion (Eitem 10i)** Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 20 Mai 2026. Adroddodd Ann Beynon, cadeirydd dros dro y Pwyllgor Archwilio a Risg ar: • yr angen i aelodau Bwrdd dderbyn hyfforddiant archwaeth risg a rheoli risg fydd yn cael ei ddarparu gan yr archwilwyr mewnol i'w gynnal yn yr hydref (Eitem 5.3 uchod); • ei bod wedi cynnal sgyrsiau unigol gyda'r aelodau; • bod Paul Peters wedi cytuno i barhau fel aelod allanol am ail dymor. Cytunwyd ar yr argymhelliad. Derbyniwyd yr adroddiad.		
10.2	**Y Gofrestr Risg Strategol (Eitem 10ii)** Adroddwyd y bydd y Gofrestr Risg yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr adolygiad llywodraethiant a'r Cynllun Strategol.		

	Argymhellwyd i gynnwys cyfeiriad at risg ynghylch gostyngiad myfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Nodwyd cofrestr risg strategol y Coleg, er gwybodaeth.	John Hayes i rannu gwybodaeth ynghylch hyn er mwyn ei hystyried wrth ddiweddaru'r Gofrestr.	Ar unwaith
10.3	**Adroddiad blynyddol (Eitem 10iii)** Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol.		

11. Eitem 11 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
11.1	**Cofnodion** Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026. Adroddodd yr Athro Anwen Jones, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol: • ar benodi rheolwyr buddsoddiadau ym mis Medi 2026; • y derbyniwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27; • eu bod wedi derbyn adroddiad diwedd blwyddyn interim ar gyllideb 2025/26;		

	• bod y cyfrifon terfynol yn cael eu trosglwyddo i'r Archwilwyr Allanol ar gyfer yr archwiliad blynyddol o gyfrifon y Coleg; • y bydd yn cynnal sgyrsiau gyda'r aelodau yn nhymor yr haf. Derbyniwyd yr adroddiad.		

12. Eitem 12 – Bwrdd Academaidd

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
12.1	**Cofnodion** Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 13 Mai 2026. Adroddodd yr Athro Enlli Thomas, cadeirydd y Bwrdd Academaidd: • ar y pryder a fynegwyd gan gynrychiolwyr y dysgwyr y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael effaith negyddol ar y nifer a fydd yn astudio rhai pynciau addysg uwch yn y dyfodol; • ar heriau incwm yn sgil gostyngiad mewn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol a sgil effaith hynny ar golli swyddi.		

	Derbyniwyd yr adroddiad.		

13. Eitem 13 – Bwrdd Strategol ÔI-16

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
13.1	**Cofnodion** Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ÔI-16 a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2026. Adroddodd Meri Huws, cadeirydd y Bwrdd Strategol ÔI-16, gan fod Yusuf Ibrahim wedi cadeirio'r cyfarfod y gallai ef rhoi crynodeb o'r trafodaethau. Adroddodd er bod cynnydd yn y ddarpariaeth bod amrywiaeth mawr a bylchau o fewn y colegau a'r darparwyr prentisiaethau o ran sgiliau staff ac ymagwedd dysgwyr. Derbyniwyd yr adroddiad.		
13.2	Nodwyd dyhead Meri Huws i gamu lawr fel cadeirydd y Bwrdd Strategol ÔI-16 ac enwebwyd a derbyniwyd Yusuf Ibrahim fel ei olynydd. Diolchwyd i Meri Huws am ei gwaith wrth sefydlu ac arwain y Bwrdd Strategol ÔI-16.		

	Ar y pwynt hwn ymadawodd Nia Elias		

14. Eitem 14 - Unrhyw fater arall

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
14.1	**Eisteddfod Genedlaethol** Adroddwyd y cylchredir rhaglen y Coleg yn yr Eisteddfod maes o law. Traddodir y ddarlith flynyddol eleni gan Tudur Dylan Jones.		

15. Eitem 15 – Dyddiadau cyfarfodydd nesaf

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
17.1	**Dyddiadau cyfarfodydd nesaf** Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: • 1 Hydref 2026, Caerdydd a Teams • 18 Tachwedd 2026, Caerdydd • 17 Mawrth 2027, Abertawe • 30 Mehefin 2027, Aberystwyth		
	Ar y pwynt hwn ymadawodd Nia Edwards-Behi, Mari Fflur, Ffion Hughes ac Alan Jones		

16. Eitem 18 – CAEËDIG

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
16.1	Cofnod ar wahân.		